ECAD6006C –
Yr Iaith ar Daith

TRAFOD CERDDI

Blwyddyn 3
5ed o Ragfyr 2019
Bethan Griffiths

NOD AC AMCANION

- **Nod y wers heddiw ydy:**
  - Trafod cerddi a'r gwahanol elfennau ieithyddol ynddynt
- **Amcanion:**
  - dadansoddi'r gwahanol elfennau ieithyddol mewn cerdd
  - edrych ar y defnydd o ferfau cryno
  - trafod termau gwerthfawrogi cerddi

FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD

- **Darllen - Blwyddyn 4**

  - ‘dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau’

- **Darllen - Blwyddyn 1:**

  - ‘mynegi barn am wybodaeth yn y testun’

BETH YDY CERDD?


Darn o farddoniaeth ydy cerdd sydd yn dweud rhywbeth mewn ffordd fachog a chofiadwy.

BETH YDY BARDD?


Bardd yw'r person sy'n llunio cerddi.

Gellir adrodd neu ganu cerddi.

Mae bardd yn ysgrifennu barddoniaeth, ac mae awdur yn ysgrifennu rhyddiaith. Mae'r rhain i gyd yn feirdd :



Mae Cymru'n wlad sy'n nodedig am ei beirdd, ac ers 2000 mae unigolyn wedi ei benodi fel Bardd Plant Cymru bob blwyddyn.

Allwch chi enwi rhai ohonynt?

Pwrpas y cynllun yw annog plant a phobl ifanc i fwynhau darllen ac ysgrifennu cerddi o bob math.

BETH SYDD YN BWYSIG WRTH YSGRIFENNU CERDD?

- Defnydd effeithiol o iaith – berfau, ansoddeiriau, cymariaethau, trosiadau ayb
- Gwreiddioldeb
- Odl / rhythm
- Nifer y sillafau
- Beth arall? Trafodwch eich syniadau

CWIS HWN / HON

- LLYTHYREN
- SILLAF
- GAIR
- LLINELL
- ADRAN
- PENNILL
- CERDD
- SYNIAD
- TROSIAD

- RHYTHM
- DELWEDD
- PERSONOLIAD
- CYMHARIAETH
- SILL
- ARDDULL

Technegau Trafod Cerddi

y llythyren hon
y sillaf hon
y llinell hon
yr adran hon
y ddelwedd hon
y gyffelybiaeth hon
y gymhariaeth hon
y gerdd hon

y pennill hwn
y gair hwn
y personoliad hwn
y syniad hwn
y trosiad hwn
y rhythm hwn
y darn hwn

y sill hwn/hon
yr arddull hwn/hon

Wrth drafod barddoniaeth, cofiwch y canlynol :

Enw benywaidd yw ‘cerdd’ :

Y **g**erdd hon / y **c**erddi hyn
Mae’r **g**erdd yn...
Un **g**erdd, dwy **g**erdd, tair **c**erdd.

Enw gwrywaidd yw ‘bardd’ :

Y **b**ardd hwn / y **b**eirdd hyn
Mae’r **b**ardd yn...
Un **b**ardd, dau **f**ardd, tri **b**ardd.

Enw benywaidd yw ‘llinell’ :

Y **ll**inell hon / y **ll**inellau hyn
Mae’r **ll**inell yn...
Un **ll**inell, dwy **l**inell, tair **ll**inell.

Enw gwrywaidd yw ‘pennill’ :

Y **p**ennill hwn / y **p**enillion hyn
Mae’r **p**ennill yn...
Un **p**ennill, dau **b**ennill, tri **ph**ennill.

Hefyd, cofiwch fod ansoddair sy’n dilyn enw benywaidd unigol yn treiglo’n feddal.

Rhowch gynnig ar gywiro'r rhain :

Brawddegau gwallus	**Cywiriad**
1. Mae'r cerdd yn hir.	
2. Mae'r fardd yn ysgrifennu'n wych.	
3. Ai hon yw'r gerdd cyntaf?	
4. Darllenwch y tri llinell cyntaf.	
5. Ble mae'r tri bennill arall?	
6. Mae'r fardd wedi ysgrifennu un llinell yn ormod.	
7. Dyma gerdd gorau'r gystadleuaeth.	

BERFAU CRYNO

Wrth ysgrifennu, mae'n bwysig amrywio'r modd rydych yn dechrau brawddegau, gan osgoi dechrau yn yr un ffordd bob amser
e.e. *Mae'r bardd yn gweld / Mae'r awdur yn clywed / Mae'r gerdd yn sôn...*

Mae'n llawer gwell defnyddio'r **FERF GRYNO**
e.e. Gwêl y bardd / Clyw'r awdur / Sonia'r gerdd...

Os nad ydych yn gwybod PWY sy'n gwneud, yna defnyddiwch yr **AMHERSONOL**
e.e. *Clywir yr adar yn canu / Dywedir bod y tywydd ar fin troi*

BERFAU CRYNO DEFNYDDIOL WRTH DRAFOD CERDDI

Berfenw	3ydd unigol	Amhersonol
gweld	gwêl	gwelir
clywed	clyw	clywir
disgrifio	disgrifia	disgrifir
dweud	dywed	dywedir
awgrymu	awgryma	awgrymir
cyfleu	cyflea	cyfleir
honni	honna	honnir
esbonio	esbonia	esbonir
mynd	â/aiff	eir
dod	daw	deuir
cael	caiff	ceir
sefyll	saif	sefir
cymharu	cymhara	cymherir
agor	egyr	agorir
dangos	dengys	dangosir
mynnu	mynna	mynnir
gwybod	gwyr	gwyddys
troi	try	troir
synhwyro	synhwyra	synhwyrir

TECHNEGAU ARDDULL A DDEFNYDDIR MEWN CERDDI

RHAI TECHNEGAU A DDEFNYDDIR MEWN CERDDI

Odli : dau air sydd yn swnio'n debyg i'w gilydd

Ansoddair : gair sy'n disgrifio

Berfenw : gair sy'n cyfleu gweithred

Berf : gair sy'n cyfleu gweithred ond sydd hefyd yn dweud wrthym **pwy** a **phryd** sy'n gwneud y weithred

Cymhariaeth / cyffelybiaeth : cymharu rhywbeth â rhywbeth arall

Personoli : rhoi teimladau neu nodweddion person i rywbeth arall

Trosiad : siarad am un peth yn nhermau rhywbeth arall

Ailadrodd : defnyddio'r un gair neu gyfres o eiriau mwy nag unwaith i greu effaith

Cyflythreniad : cytseiniaid yn cael eu hailadrodd ar ddechrau gair mewn llinell

Limrig

Beth am i ni weld sawl curiad sydd yn llinellau 1, 2 a 5.
Ystyr curiad yw lle rydyn ni'n rhoi'r pwyslais mewn llinell.

Un diwrnod fe aeth Anti Beti 0


I gerdded rhwng Mwmbwls a Sgeti, 0

Daeth andros o chwythad

Nes tynnu ei dillad...

Doedd dim byd ar ôl ond ei het hi. 0

Sawl curiad sydd ymhob llinell?



ateb

Cofiwch mewn limrig fod curiadau'n bwysicach na sillafau, curiadau sy'n rhoi rhythm i linell.
Gwrandewch ar y llinell nesaf:

Cerddais i'r dref a mynd mewn i siop.

Dydy hi ddim yn dilyn rhythm arbennig, felly ni fyddai'n addas i fod mewn limrig.
Mewn limrig rhaid i linellau 1, 2 a 5 gael yr un nifer o GURIADAU, ac felly hefyd linellau 3 a 4.

Ar y llaw arall, ydych chi'n clywed bod mwy o rythm i'r llinell yma...?

Un diwrnod fe gerddais i siopa.

Beth am i chi fynd ati i lunio limrig? Beth am ddechrau fel hyn...

Fe welais beth rhyfedd un noson

Odli ar Waith

Yn aml iawn mae beirdd yn odli llinellau â'i gilydd.
Edrychwch ar air olaf y llinellau hyn:

Y Sipsi gan Crwys

Hei ho, hei-di-ho,
Fi yw sipsi fach y fro,
Carafán mewn cwr o fynydd,
Newid aelwyd bob yn eilddydd,
Rhwng y llenni ger y lli,
Haf neu aeaf, waeth gen i,
Hei ho, hei-di-ho.

Mae'r geiriau ar ddiwedd llinell 1, 2 … a 7 yn odli.

Mae'r geiriau ar ddiwedd llinell 3 a 4 yn odli.


Mae'r geiriau ar ddiwedd llinell 5 a 6 yn odli.

GEMAU IAITH

Gan ddefnyddio'r linc isod, archwiliwch y wefan er mwyn canfod y gwahanol weithgareddau a gemau iaith.

Sut byddech chi'n eu defnyddio gyda'r disgyblion yn eich dosbarth?

http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/welsh/creu-cerddi/index-2.html



Cyflythrennu

‘Nid yw’r felin heno’n malu yn Nhrefin ym min y môr’

(Melin Trefin, Crwys)



ateb

Technegau Trafod Cerddi

- CYNILDEB: PLUEN NID **GORDD**

- Gellir dweud bod y llinell hon …
- O bosib, bwriad y bardd fan hyn yw …
- Yr hyn mae'r ddelwedd hon yn ei gyfleu yw …
- Wrth ddarllen y pennill hwn y syniad a ddaw i ni yw …

TRAFOD CERDDI'R NADOLIG

Trafod Cerddi

1) Beth yw cynnwys y gerdd?

2) Beth ydych chi'n credu yw neges y bardd?

3) Pa nodweddion arddull sydd yn y gerdd?

4) Ystyriwch y pwyntiau ieithyddol yn y gerdd?

Carol Nadolig

Dyma'r dydd y gwelwyd Iesu
Yn y preseb gwael ei drem,
Ac englynion Duw yn canu
Uwchben meysydd Bethlehem,
Canwn ninnau
Gydag engyl gwynion Duw.

Er mai preseb oer defoliant
Gafodd Ef yn faban gynt,
Pan yn dyfod o'r gogoniant
Tua'r ddaear ar ei hynt,
Holl allweddau
Tragwyddoldeb sy'n Ei law.

Deuwch engyl eto i ganu
Uwch ein hen ryfelgar fyd,
Cenwch wrthym am yr Iesu
All dawelu'r brwydrau'i gyd,
Yn y moliant
Uned holl deyrnasoedd byd.

Hedd Wyn

https://www.casgliadywerin.cymru/items/388336

Y Nadolig Hwn

A fuost ti ym mhob parti
A mwynhau dy hun go iawn?
A gefaist ti ddigon i fwyta?
Ydy'r bol a'r hosan yn llawn?
A glywaist ti'r griddfan drwy'r sŵn i gyd –
Ochenaid y gofid sydd yn y byd?
A deimlaist ti rym y cariad
Yn tywynnu o'r gwely gwair?
A rennaist ti'r syndod dwyfol
Fu'n cuddio yng nghalon Mair?
A'r angylion llachar, a welaist ti'r rhain?
Neu ai ti oedd yn plethu'r goron ddrain?
A glywaist ti leisiau nefolaidd
Yn arwain dy siwrnai bob cam?
A welaist ti ddwylo'r baban
Yn gorwedd yn llaw ei fam?
Neu ai ti roddodd hoelion y Nadolig hwn
Yn y dwylo a greodd y byd yn grwn?


Euryn Ogwen Williams

Gwaith Grŵp



Sut fyddech chi'n cyflwyno cerddi yn y dosbarth? Trafodwch pa fath o weithgareddau gwahanol y gellid eu gwneud yn seiliedig ar y gerdd. Pa sgiliau byddai'r gweithgareddau yma yn eu datblygu?

Ystyriwch feusydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm Newydd.



Cerddi'r Cof Goreuon Barddoniaeth i Blant

Traeth y Pigyn

Ddoi di gen i i Draeth y Pigyn
lle mae'r môr yn bwrw'i ewyn?
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?
Ddoi di ddim?

Ddoi di i godi castell tywod
a rhoi cregyn am ei waelod?
Ddoi di gen i? Ddoi di –
ddoi di ddim?

Fe gawn yno wylio'r llongau
a chawn redeg ras â'r tonnau.
Ddoi di gen i?
Ddoi di ddim?

O, mae'n braf ar Draeth y Pigyn
lle mae'r môr yn bwrw'i ewyn,
pan fo'r awel yn y creigiau,
pan fo'r haul ar las y tonnau.
Tyrd gen i i Draeth y Pigyn,
fe gawn wyliau hapus wedyn.
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?
Gwn y doi!

T Llew Jones



Darllen y Map yn Iawn

Cerwch i brynu map go fawr;
dorwch o ar led ar lawr.

Gwnewch dwll pin drwy bob un 'Llan',
nes bod 'na dyllau ym mhob man.

Cofiwch y mannau lle bu pwll
a chwarel a ffwrnais, a gwnewch dwll.

Y mannau lle'r aeth bendith sant
yn ffynnon loyw yn y pant,

lle bu Gwydion a Lleu a Brân,
lle bu tri yn cynnau tân,

y llyn a'r gloch o dano'n fud:
twll yn y mannau hynny i gyd,

a'r mannau y gwyddoch chi amdanynt
na chlywais i'r un si amdanynt.

Wedyn, o fewn lled stryd neu gae,
tarwch y pin drwy'r man lle mae

hen ffermydd a thai teras bach
eich tylwyth hyd y nawfed ach.

A phan fydd tyllau pin di-ri,
daliwch y map am yr haul â chi,

a hwnnw'n haul mawr canol pnawn:
felly mae darllen y map yn iawn.

Twm Morys